

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Jonathan Cawley

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E-bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod: Pwyllgor Cynllunio a Mynediad

Dyddiad: Dydd Mercher 21 Mai 2025

Amser: 10.00 y.b.

Man Cyfarfod: Swyddfa'r Parc Cenedlaethol,
Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser
cychwyn dynodedig***

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths,

Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen,

Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts,

Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Mr. Rhys Evans, Mr. Tim Jones,

Ms. Delyth Lloyd, Ms. Naomi Luhde-Thompson,

Mr. Wyn Thomas.

R H A G L E N

Rhifau Tudalen

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.
2. **Datgan Diddordeb**
Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.
3. **Cofnodion** **3 - 5**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2025 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (Copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.
4. **Adroddiad Panel Ymweld** **6 - 37**
Adroddiad Panel Ymweld ar gais cynllunio NP5/65/256B. (Copi yma)
5. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir** **38 - 81**
Cyflwyno adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. (Copïau yma)
6. **Adroddiadau Diweddaru** **82 - 87**
Cyflwyno adroddiadau diweddaru, er gwybodaeth. (Copïau yma)
7. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd** **88 - 99**
Cyflwyno rhestr o geisiadau sydd wedi cael eu penderfynu yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd, er gwybodaeth. (Copi yma)
8. **Plas Tan y Bwlch – Eiddo Prydles** **100**
Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau
Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr. (Copi yma)
- RHAN II** **101 - 108**
9. **Plas Tan y Bwlch – Pryntiant Eiddo Prydles**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo. (Copi yma)



**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Dydd Mercher 9 Ebrill 2025**

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards (Cadeirydd), Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Rhys Evans, Delyth Lloyd, Wyn Thomas.

Swyddogion

Jonathan Cawley, G. Iwan Jones, Aled Lloyd, Eva Jones, Elliw Owen, Eifion Jones.

Cynghorodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Einir Wyn Williams, y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, Mr Tim Jones a Ms Naomi Luhde-Thompson.

Soniodd y Cadeirydd fod y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar ac awgrymodd anfon llythyr ato gan yr Aelodau yn dymuno gwellhad buan iddo.

Croesawodd Mr Rhys Evans a Mr Wyn Thomas i'w cyfarfod cyntaf fel Aelodau Awdurdod. Nododd nad oeddent yn gallu cyfrannu at benderfyniadau yn y cyfarfod am nad oeddent wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol eto.

2. Datgan Diddordeb

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod na swyddog.

3. Cofnodion

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2025, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir

Cyflwynwyd adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.

5. **Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd – Cytundeb Cyflawni**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Polisi Cynllunio ar Gynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd – Cytundeb Cyflawni

Adroddwyd: –

- bod dwy brif ran i'r Cytundeb Cyflawni, sef
 - Rhan A: Amserlen o gyfnodau allweddol paratoi'r Cynllun; a
 - Rhan B: Cynllun Cynnwys Cymunedau sy'n amlinellu sut a phryd y byddai'r gymuned yn gallu cymryd rhan yn y broses o baratoi'r Cynllun
- bod y cytundeb cyflawni yn nodi sut y byddai'r yr Awdurdod yn cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Eryri newydd
- bod copi drafft o'r cytundeb cyflawni wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru ar gyfer sylwadau cychwynnol

Argymhellwyd – trafod a rhoi sylwadau ar gynnwys y drafft Cytundeb Cyflawni a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghori gyda rhanddeiliaid.

Penderfynwyd: — **cymeradwyo'r** Cytundeb Cyflawni drafft.

6. **Adroddiadau Diweddar**

6.1 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau cynllunio a Chytundebau Adran 106.

6.2 *Cyflwynwyd* adroddiadau diweddar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar geisiadau na phenderfynwyd arnynt ers 13 wythnos a mwy.

7. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd**

Cyflwynwyd rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:55



ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 09 EBRILL 2025

4. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir

Cyflwynwyd:

- (1) NP5/65/256B – Dymchwel rhan o'r cyn-westy a chodi 5 tŷ marchnad agored newydd (1 tŷ ar wahân a 4 tŷ tref), darparu 4 tŷ fforddiadwy gyda 3 yn cael eu lletya gyda theras wedi'i adeiladu o'r newydd ac 1 o fewn yr hen lety staff ar lawr gwaelod isaf y neuadd, Neuadd Bontddu, Bontddu. (Cais diwygiedig).

Adroddwyd:

- bod y safle o fewn ffin datblygu tai Bontddu a byddai'n cyfrannu at nifer yr unedau tai fforddiadwy ac yn cyfrannu at darged yr Awdurdod o ddarparu 375 o dai fforddiadwy o fewn oes Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- bod y safle mewn cyflwr bregus ac yn amharu ar fwynderau gweledol pentref Bontddu a'r ardal ehangach;
- bod yna gyfyngiadau i ddatblygu'r safle oherwydd nodweddion y safle a chyflwr presennol yr adeilad sydd wedi'i ddifrodi gan dân;
- bod y cyflwyniad diwygiedig yn ddatblygiad mwy priodol;
- y dylid cymeradwyo'r cais yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwmo i Gytundeb Adran 106 gyda'r Awdurdod ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn llwyddiannus.

Rhoddodd Geraint Lewis o *Geraint Lewis Associates*, a oedd yn cyflwyno'r cais ar ran yr Ymgeisydd, gyflwyniad i'r cyfarfod gan nodi:

- fod yr adeilad wedi'i ddifrodi'n sylweddol gan dân yn 2020 a bod perygl i rhannau sylweddol o'r waliau ddisgyn;
- y byddai'r datblygiad yn darparu pedwar tŷ fforddiadwy mawr eu hangen i'r pentref;
- y byddai'r tai marchnad agored yn cynorthwyo ariannu'r tai fforddiadwy.

Trafodwyd y cais gan yr Aelodau a nodwyd y pryderon yma:

- nad oedd dyluniad y tai yn gweddu i Bontddu
- nad oedd dyluniad y tai fforddiadwy a'r tai marchnad agored yn debyg;
- y dylai'r gymhareb rhwng nifer y tai marchnad agored a nifer y tai fforddiadwy fod yn 4:4;
- y byddai gormod o olau'n dod o'r adeiladau;
- y byddai'r datblygiad yn darparu pedwar tŷ fforddiadwy mawr eu hangen i'r pentref.

Argymhellwyd – bod Panel Ymweld y De yn ymweld â'r safle i archwilio'r cais ymhellach.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

PANEL YMWELD – Ardal y De
Southern Area *INSPECTION PANEL*

EITEM RHIF 4.0

Dyddiad / Date : 16/04/25

Cais/ Application: NP5/65/256B –

Dymchwel rhan o hen westy a chodi 5 annedd marchnad agored newydd (1 tŷ ar wahân a 4 tŷ tref), darparu 4 annedd fforddiadwy gyda 3 yn cael eu lletya gyda theras newydd ac 1 o fewn yr hen lety staff ar lawr gwaelod isaf y neuadd, Neuadd Bontddu , Bontddu. (Cais diwygiedig)

Presennol/Present: Cynghorwyr/Councillors: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Edgar Owen, Elfed Powell Roberts, John Pugh Roberts, Meryl Roberts, Louise Hughes, Delyth Lloyd Griffiths. Ms Delyth Lloyd

Ymddiheuriadau/Apologies:

Yn mynychu/In Attendance: Mr Aled Lloyd (Uwch Swyddog Cynllunio)
Ms Eva Jones (Swyddog Cynllunio Cadwraeth Adeiladau) (Hyfforddai Graddedig)

Adroddwyd/Reported: Manylion y cais
Y cynnig yw dymchwel rhan o hen westy a chodi 5 annedd marchnad agored newydd (1 tŷ ar wahân a 4 tŷ tref), darparu 4 annedd fforddiadwy gyda 3 yn cael eu lletya gyda theras newydd ac 1 o fewn yr hen lety staff ar lawr gwaelod isaf y neuadd, (Cais diwygiedig)

Cais diwygiedig, tynnwyd y cais blaenorol yn ôl. Roedd y cais a dynnwyd yn ôl ar gyfer datblygiad mwy.

Cafodd yr aelodau wybod am gyflwr yr adeilad presennol a'i fod yn dirywio ers y tân mawr yn 2020.

Archwiliodd yr aelodau ran o ardal fewnol yr adeilad a dangoswyd iddynt yr adeilad siâlet presennol, sydd i'w ddymchwel, a theras newydd o 3.

Trafodaeth / Discussion Nododd yr aelodau gyflwr yr adeilad a chyflwr y safle yn gyffredinol a'r difrod helaeth a achoswyd gan y tân.

Trafododd yr aelodau ddarpariaeth tai fforddiadwy a gofynnwyd am fanylion yr ardaloedd gardd ar gyfer y tai fforddiadwy a'r angen i gydymffurfio â *Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru – Creu Cartrefi a Lleoedd Prydferth*.

Holodd yr aelodau a ellid adfer carreg o'r adeilad presennol ac ynghylch y datblygiad arfaethedig.

Holiodd yr aelodau a ellid ailddefnyddio nodweddion a deunyddiau mewnlol, fel y teils llawr hanesyddol, fel rhan o'r datblygiad arfaethedig.

Casgliad / Conclusion:

I'w drafod ymhellach yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a drefnwyd ar gyfer 21 Mai

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Dyddiad: 09-04-25
Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.

Rhif y Cais: NP5/65/256B

Dyddiad Cofrestru: 12/02/2025

Cymuned: Llanelltyd

Cyfeirnod Grid: 267434 318942.

Swyddog Achos: Mr. Aled Lloyd

Lleoliad:

Neuadd Bontddu, Bontddu

Ymgeisydd:

H G G Ltd
 d/o Geraint Lewis Associates
 Bryn Rhedyn
 Llanelltyd
 Dolgellau
 Gwynedd. LL40 2SU

Disgrifiad:

Dymchwel rhan o'r cyn westy a chodi 5 tŷ marchnad agored newydd (1 tŷ ar wahân a 4 tŷ tref), darparu 4 tŷ fforddiadwy gyda 3 yn cael eu lletya gyda theras wedi'i adeiladu o'r newydd ac 1 o fewn yr hen lety staff ar lawr gwaelod isaf y neuadd, Neuadd Bontddu, Bontddu. (Cais diwygiedig)

Crynodeb o'r Argymhelliad:

RHOI Caniatâd, yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i sicrhau y darperir tai fforddiadwy

- Cychwyn o fewn 5 mlynedd
- Yn unol â chynlluniau a gymeradwywyd
- Cyfyngiad ar ddefnydd
- Cyflwyno Cynllun Cadwraeth
- Cyflwyno Cynllun Goleuo
- Cyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu
- Cyflwyno Cynllun Rheoli Sŵn
- Oriau gwaith craidd
- Gweithredu mesurau Bioamrywiaeth a Gwella
- Cymeradwyo Gwaith Maen
- Cyflwyno cynllun draenio dŵr budr
- Cofnodi Archaeolegol
- Dileu Hawliau Datblygu a Ganiateir

Rheswm / Rhesymau Pam yr Adroddwyd am y Cais i'r Pwyllgor:
Cynllun Dirprwyo

Mae'r cais yn un y mae'r Prif Weithredwr yn ystyried y dylai'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ei ystyried.

Disgrifiad o'r safle

Mae Gwesty Bondtddu Hall yn adeilad traddodiadol trawiadol sy'n edrych dros Aber Afon Mawddach. Adeiladwyd yn 1873 fel adeiladwaith carreg gydag estyniadau diweddarach.

Caeodd fel gwesty yn 2004 gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer ei ddefnyddio fel preswylfa breifat. Mae'r neuadd wedi'i defnyddio fel preswylfa breifat hyd at fis Mehefin 2020. Ym mis Mehefin 2020, cafodd yr adeilad ei ddifrodi'n ddifrifol gan dân difrifol, sydd wedi arwain at ddifrod sylweddol i ffabrig yr adeilad gyda chwymp y to a rhai waliau.

Mae'r arolwg strwythurol a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn amlygu'r lefelau amrywiol o ddifrod a achoswyd i'r adeilad gan y tân. Mae'n amlwg bod y difrod wedi bod yn helaeth ac mae'r adeilad mewn cyflwr anadferadwy. Mae hyn yn arbennig o nodedig o ran dadelfennu elfennau pensaernïol craidd, yn ogystal â waliau cerrig yr effeithir arnynt gan wres yn y waliau a'r sylfeini.

Rhennir yr adeilad yn ddwy brif ran; yr adeilad carreg hŷn lle bu'r tân, ac estyniad mwy newydd (tua 1970au) o adeiladwaith cymysg, nad yw wedi'i ddifrodi gan dân ond sydd wedi mynd â'i ben iddo.

Mae'r cyn westy a'r tir o'i amgylch i'w weld o olygfa bell o lwybr Mawddach ar ochr arall aber afon Mawddach.

Mae'r safle mewn safle uchel uwchben yr A496 ac mae wedi'i sgrinio'n rhannol gan wrychoedd a phlanhigion presennol ar y ffiniau. Ceir mynediad i'r safle o'r briffordd trwy bâr o giatiau haearn gyr addurnol sy'n arwain at y maes parcio gorffenedig tarmacadam ar gyfer yr hen westy a all ddal mwy na thri deg o gerbydau.

Dynodiadau / Cyfyngiadau Tir:

- O fewn y Ffin Datblygu Tai
- Adeilad Traddodiadol
- Mae safle'r datblygiad o fewn 40m i ddau gwrs dŵr, sydd wedi'u cysylltu'n hydrolegol i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Aber Mawddach / Mawddach, sy'n sail i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau.

Cynnig:

Mae'r cynnig yn gais llawn ar gyfer y datblygiad a ganlyn:-

Dymchwel rhan o gyn westy a chodi:

5 tŷ marchnad agored newydd (1 tŷ ar wahân a 4 tŷ tref),

4 tŷ fforddiadwy gyda 3 yn cael eu lletya gyda theras adeiladu newydd ac 1 o fewn yr hen lety staff ar lawr gwaelod isaf y Gwesty

I gefnogi'r cais, cyflwynwyd y dogfennau a ganlyn –

Arolwg Strwythurol

Datganiad Dylunio a Mynediad;

Arolwg Ystlumod a Rhywogaethau a Warchodir

Datganiad Seilwaith Gwyrdd

Datganiad Ieithyddol Cymunedol

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031

- SP A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a datblygu cynaliadwy
- SP C: Strategaeth Datblygu Gofodol
- DP 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol
- SP Ch: Seilwaith Cymdeithasol a Ffisegol mewn datblygiadau newydd
- DP 2: Datblygu a'r Dirwedd
- SP D: Yr Amgylchedd Naturiol
- SP Dd: Newid Hinsawdd
- SP Ff: Amgylchedd Hanesyddol
- SP G: Tai
- DP 30: Tai Fforddiadwy
- PD 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy
- DP 7: Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol
- DP 8: Gwarchod Safleoedd Heb eu Dynodi
- DP 18: Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau
- SP L: Hygyrchedd a Chludiant

Canllawiau Cynllunio Atodol

- CCA 1: Dylunio Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru
- CCA 2: Ystyriaethau Datblygu Cyffredinol
- CCA 3: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg
- CCA 4: Tai Fforddiadwy
- CCA 5: Ymrwymadau Cynllunio
-
- CCA 6: Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth
-

Polisi Cenedlaethol

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12) 2024
- Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy
- Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio
- Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
- Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd
- Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth
- Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg
- Nodyn Cyngor Technegol 24: Amgylchedd Hanesyddol

Ymgynghorwyr:

Cyngor Cymuned Llanelltyd	Dim ymateb
Cyfoeth Naturiol Cymru	Sylwadau – pryderon gyda'r cais fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, rydym yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn drwy osod yr amod canlynol ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir: Amod: Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bydd Cynllun Cadwraeth wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Amod: Cynllun goleuo allanol. Cyflwyno cynllun goleuo allanol gan gynnwys cynlluniau. Bydd y cynllun hwn yn ystyried goleuadau presennol ac arfaethedig ynghyd ag unrhyw ollyngiad sy'n deillio o leoliadau mewnol. Bydd y gofyniad cydran hwn yn cynnwys:
Cyngor Gwynedd - Priffyrdd	Dim ymateb
Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Rheoli Llygredd a Thrwyddedu	Sylwadau – Argymell amodau ar roi caniatâd cynllunio ar gyfer cyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP), Cynllun Rheoli Sŵn ac oriau pan wneir gwaith adeiladu.
Dwr Cymru	Sylwadau – Argymell amod ar gyfer cyflwyno cynllun draenio dŵr budr. Y cynllun a gymeradwywyd i'w weithredu cyn i neb fyw yn yr anheddau
SaB	Cyngor Safonol mewn perthynas â'r angen am gymeradwyaeth ar gyfer draenio dŵr wyneb
Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd	Sylwadau – Ymgymmerir â mesurau lliniaru archeolegol priodol ac argymell amodau ar gyfer manyleb ar gyfer rhaglen o waith archeolegol.
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	Dim gwrthwynebiad

Ecoleg	Sylwadau - Lliniaru ac Argymhellion i'w dilyn sy'n cynnwys mesurau lliniaru ar gyfer ystlumod, adar yn nythu, mamaliaid daearol ac ymlusgiaid. Creu clwydfan newydd lawndal am golli cynefin adar nythu ar ffurf 4 blwch nythu adar coeden/prenfaen i'w gosod ar goed o fewn ffin y safle. Mae manylion hefyd wedi'u cyflwyno ar gyfer dileu Rhododendron, Buddleia a Helitrope Gaeaf a fyddai'n gwella bioamrywiaeth yn sylweddol ac yn atal lledaeniad planhigion a nodwyd i gynefinoedd cyfagos. Oherwydd agosrwydd Safle(oedd) Gwarchodedig o amgylch, bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefin (ARhC) ar gyfer y cais hwn. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefin (ARhC) yn cael ei ddrafftio. Bydd unrhyw ymateb a dderbynnir yn cael ei adrodd i'r pwyllgor.
--------	--

Ymatebion i Gyhoeddusrwydd:

Hysbysebwyd y cais trwy osod rhybuddion safle, llythyr hysbysu cymdogion i 25 eiddo preswyl cyfagos,

Mae 2 lythyr wedi eu cyflwyno yn mynegi pryderon ar sail,

- Materion traffig a thagfeydd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad
- Uchder tai fforddiadwy

1. Cefndir

1.1 Cyflwynwyd cais (NP5/65/256A) ym mis Hydref 2023 ar gyfer y

Dymchwel rhan o hen Westy Neuadd Bontddu a chodi

8 annedd marchnad agored newydd

5 uned fforddiadwy - roedd yr unedau fforddiadwy i'w cynnwys:.

- 3 o fewn yr hen gabanau gwyliau/llety staff, i'w hadnewyddu
- 1 o fewn llawr gwaelod isaf yr hen westy
- 1 yn annedd cyn reolwr y gwesty.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd a'r asiant, tynnwyd y cais yn ôl ym mis Hydref 2024.

1.2 Roedd y cais blaenorol (NP5/65/256A) yn destun cyngor cyn ymgeisio pan gynghorodd swyddogion, i fod yn unol â Pholisi Strategol G a Pholisi Datblygu 30, y byddai'n ofynnol darparu cyfraniad tai fforddiadwy o 50%

ar safleoedd o 2 annedd neu fwy. Mae'r un gofynion polisi yn berthnasol i'r cais presennol.

2.0 Egwyddor Datblygu

- 2.1 Mae'n briodol ystyried y cynnig yn erbyn Polisi Strategol A, G a Pholisïau Datblygu 1, 6, a 30.
- 2.2 Byddai'r cynnig yn defnyddio safle o fewn ffin datblygu tai Bontddu, a ddifinnir fel 'anheddiad eilradd' at ddibenion polisi yn CDLI Eryri. Mae'r egwyddor o ddatblygu tai ar y safle felly yn cael ei dderbyn.
- 2.3 Polisi Strategol CDLI G (Tai) a Pholisi Datblygu 30 – Tai Fforddiadwy yw'r rhai mwyaf perthnasol i'w defnyddio wrth benderfynu ar egwyddor y datblygiad hwn.

3.0 Asesiad

Cyd-destun Polisi

- 3.1 Mae Bontddu wedi ei ddynodi fel Anheddiad Eilaidd at ddibenion Cynllun Datblygu Lleol Eryri. O fewn ffiniau datblygu tai Aneddiadau Eilaidd mae gofyniad am gyfraniad tai fforddiadwy o 50% ar safleoedd o 2 annedd neu fwy (Polisi Datblygu 30) i ddarparu tai fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol ar bob annedd adeiladu newydd.
- 3.2 Mae'r polisi ar addasiadau hefyd yn ceisio cyfraniad o 50% ar gyfer tai fforddiadwy.
- 3.3 Yn ogystal â'r polisïau a nodir uchod sy'n arbennig o berthnasol i'r cynnig mae Polisi Strategol G sy'n nodi gofynion yr Awdurdod ac yn amlinellu'r mathau o dai sy'n adlewyrchu'r farchnad dai leol.

Tai Marchnad Agored – 4 tŷ tref tri llawr ac 1 Anedd Marchnad Agored ar wahân

- 3.4 Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys 5 o dai marchnad agored newydd ac mae'r cynnig yn cynnwys manylion am 4 tŷ o fewn teras ac 1 tŷ ar wahân.
- 3.5 Mae'r gosodiad yn dangos tai tri llawr 3 ystafell wely mewn bloc o bedwar a thŷ deulawr 5 ystafell wely ar wahân.
- 3.6 Mae manylion wedi eu cyflwyno yn dangos y tai arfaethedig mewn perthynas ag adeilad presennol y gwesty. Mae'r delweddau yn dangos y strwythur presennol ac uchder y tai arfaethedig

- 3.7 Mae'r Anheddau Marchnad Agored newydd yn llai o uchder na'r hen adeilad Gwesty presennol.
- 3.8 Bydd darpariaeth parcio ar gyfer y farchnad agored a thai fforddiadwy ar faes parcio presennol y gwesty
- 3.9 Mae'r ddarpariaeth parcio yn darparu 25 o leodedd parcio mewn perthynas â'r datblygiad yn ddigonol ac yn dderbyniol ar gyfer nifer y tai a fwriedir ar y safle.
- 3.10 Gan fod polisïau tai'r CDLI yn cael eu targedu'n bennaf at anghenion cymunedau lleol, ystyrir y byddai'n briodol cyfyngu defnydd i Ddosbarth Defnydd C3 (annedd preswyl parhaol) yn unig, ac eithrio defnyddiau C5 (tai annedd, a ddefnyddir heblaw fel unig neu brif breswylfeydd) ac C6 (tai annedd, a ddefnyddir ar gyfer gosodiadau tymor byr). Mae gan yr ardal eisoes ganran uchel (18.39%) o lety gosod gwyliau tymor byr, ac felly mae'n ymddangos yn briodol targedu'r tai tuag at lety preswyl parhaol yn hytrach na gosod tai gwyliau neu ail gartrefi.
- 3.11 Os yw'r Awdurdod yn bwriadu cymeradwyo'r cais byddai'r tai marchnad agored fel arfer yn cael eu hamodi i gyfyngu eu deiliadaeth i Ddosbarth Defnydd C3: Annedd (i'w ddefnyddio fel unig neu brif breswylfa)
- 3.12 Mae gohebiaeth gan yr asiant wedi gofyn i'r anheddau marchnad agored gael eu gwerthu a'u meddiannu i'w defnyddio fel Prif Annedd neu Ail Gartref.
- 3.13 Mae Polisi Strategol G: Tai yn datgan "Bydd angen tai newydd o fewn y Parc Cenedlaethol i gwrdd ag angen cymunedau lleol Rhaid i gynigion roi ystyriaeth briodol i anghenion tai lleol o ran maint, math a deiliadaeth anheddau.
- 3.14 Byddai'r amod i gyfyngu meddiannaeth i Ddosbarth Defnydd C3 fel arfer yn cael ei gymhwyso i roi caniatâd cynllunio gan ystyried y ganran o ail gartrefi yn Llanelltyd. Mae Polisi Strategol G yn nodi y bydd angen tai newydd o fewn y Parc Cenedlaethol i gwrdd ag angen cymunedau lleol. Bwriad Polisi Strategol G yw cyflenwi cartrefi parhaol i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol. Nid yw'r ddarpariaeth o ail gartrefi a gosodiadau tymor byr yn cyfrannu at y nod hwn. Mae'r asiant wedi gwneud sylw er mwyn gwneud i'r cynllun weithio ar sa il economaidd ac ariannol y dylid cynnig y tai marchnad agored i'w prynu ar gyfer defnydd C3 neu C5, fodd bynnag nid oes tystiolaeth sylweddol i gefnogi y byddai defnydd C3 yn unig yn effeithio ar hyfywedd.
- 3.15 Yn wyneb yr uchod mae swyddogion yn ystyried y dylid cyfyngu'r defnydd i ddefnydd C3

Dylunio

- 3.16 Bydd dyluniad y teras o 4 tŷ marchnad agored yn cwmpasu to llechi traddodiadol gyda wyneb carreg ar yr edrychiad blaen, wedi'i achub o'r gwesty a gorffeniad wedi'i rendrad yn wyn i'r edrychiad cefn.
- 3.17 Mae'r drychiad blaen (de) yn cynnwys balconi hyd llawn ar y llawr cyntaf yn edrych dros Aber Afon Mawddach. Mae'r drychiad cefn (gogledd) yn cynnwys ffenestri o faint traddodiadol a phorth mynediad blaen yn ymgorffori to brig llechi.
- 3.18 Daethpwyd i'r casgliad y byddai dyluniad yr anheddau, tra o ddyluniad modern yn ymgorffori gwydr, yn cydweddu â'r dirwedd.
- 3.19 Mae'r tŷ marchnad agored ar wahân yn dŷ deulawr 5 ystafell wely. 19 Bydd dyluniad y tŷ yn cwmpasu to llechi traddodiadol gyda wyneb carreg ar yr edrychiad blaen, wedi'i achub o'r gwesty a gorffeniad wedi'i rendrad yn wyn ar y drychiad cefn.
- 3.20 Mae'r drychiad blaen (de) yn ymgorffori balconi ar y llawr cyntaf yn edrych dros Aber Afon Mawddach. Mae'r drychiad cefn (gogledd) yn cynnwys ffenestri o faint traddodiadol a phorth mynediad blaen yn ymgorffori to brig llechi.
- 3.21 Mae gan bob tŷ fynediad uniongyrchol i hen erddi helaeth y gwesty, sydd wedi'i amgáu gan driniaethau terfyn.

Tai Fforddiadwy

Bydd 3.22 o dai fforddiadwy yn cael eu codi ar safle'r hen adeiladau siales. Mae'r tai yn dai deulawr 3 ystafell wely yn ymgorffori to brig llechi traddodiadol gyda chymysgedd o gerrig a rendrad i'r ffasadau.

- 3.23 Mae annedd fforddiadwy Rhif 4 i'w leoli ar y Llawr Gwaelod Isaf yn adeilad yr hen Westy, a ddefnyddir yn ffurfiol ar gyfer aelod o staff. Mae'r llety'n cynnwys 2 ystafell wely, cegin, lolfa a lolfa haul. Gan y byddai'r uned fforddiadwy yn cael ei chynnwys o fewn adeiladau presennol o gyflwr rhesymol, gyda gwaith adeiladu adferol gallai'r rhain gynnwys tai fforddiadwy.
- 3.24 Gofyniad polisi DP30 ar gyfer Aneddiadau Eilaidd yw cyfraniad tai fforddiadwy o 50%.
- 3.25 Cyfanswm yr unedau a gynigir yn awr yw 9. Gan mai 50% yw gofyniad polisi DP30, mae hyn gyfystyr â 4.5 o unedau tai fforddiadwy. Dim ond 4 uned tai fforddiadwy a gynigir. Mae paragraff 9.11 o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy mabwysiedig yn nodi lle mae'r cyfraniad gofynnol yn cyfateb i uned rannol (0.5 yn yr achos hwn), dylid darparu'r hyn sy'n cyfateb i ran o'r uned fel swm gohiriedig, neu fel uned ychwanegol ar y safle yn lle talu swm gohiriedig am yr uned rannol.

- 3.26 Rhaid i gynnig wneud cyfraniad sylweddol i anghenion tai fforddiadwy'r anheddle a darparu'r nifer angenrheidiol o unedau tai fforddiadwy yn unol â'r polisiâu mabwysiedig oni bai y dangosir yn glir na ellir cwrdd â thargedau tai fforddiadwy oherwydd hyfywedd y safle. O dan yr amgylchiadau hyn gall yr Awdurdod negodi cyfraniad tai fforddiadwy priodol ar safleoedd unigol.
- 3.27 Yn y cyflwyniad mae'r asiant wedi datgan y byddai angen gwaith dymchwel helaeth a chostus o ran yr hen westy a ddifrodwyd gan dân, ac mae cyfyngiadau'r safle yn golygu y bydd angen rheoli'r gwaith dymchwel sydd ei angen yn ofalus.. Hefyd mae clirio'r safle a natur llethrog y safle yn ychwanegu'n helaeth at gost datblygu sy'n gwneud clymu'r tai marchnad agored newydd i fod ar gyfer Llety Fforddiadwy yn anhyfyw o ran cost ac economaidd.
- 3.28 Wedi cymryd yr uchod i ystyriaeth, mae swyddogion yn derbyn tra bod costau yn gysylltiedig ag ail-ddatblygu'r safle, mae costau wedi eu cyflwyno i gyfiawnhau bod nifer yr unedau tai fforddiadwy yn llai na'r hyn sy'n ofynnol gan bolisi. Nodir fodd bynnag tra bod y cyfraniad tai fforddiadwy yn is na'r gofynion polisi, dim ond 0.5 uned yw hyn, ac yn bwysig iawn mae'r 4 uned y bwriedir eu gosod ar y safle datblygu.

Cytundeb Adran 106 a Chyfnod

- 3.29 Mae'r ymgeisydd wedi cytuno i ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i sicrhau bod y tai a gynigir fel unedau fforddiadwy yn fforddiadwy ac yn parhau i fod yn fforddiadwy.
- 3.30 Pe bai caniatâd cynllunio amodol yn cael ei gratio byddai angen i'r ymgeisydd ymrwymo i Gytundeb Adran 106 gyda'r Awdurdod i sicrhau y darperir tai fforddiadwy. Byddai cyfamod graddol o fewn y cytundeb a fyddai'n mynnu bod yr ymgeisydd yn darparu rhan o'r tai fforddiadwy cyn y tai marchnad agored.

Mwynderau gweledol

- 3.31 Mae'r safle wedi ei leoli ar dir sy'n weladwy o'r briffordd, yr A496 ac o olygfannau cyfagos gan gynnwys Llwybr Mawddach poblogaidd.
- 3.32 Mae'n breswyl yn bennaf o fewn dalgylch safle'r cais, sy'n cynnwys adeiladau o wahanol faint, uchder, edrychiad ac oedran megis tai unllawr, tai deulawr a thrillawr a thai teras.

- 3.33 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, yn ogystal â NCT 12: Dylunio, yn cefnogi datblygiadau sy'n hyrwyddo ac yn annog dylunio da trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dylunio arloesol sy'n diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.
- 3.34 Mae swyddogion o'r farn, yn wyneb cyflwr presennol y safle, sy'n achosi difrod tân adfeiliedig i'r gwesty a'r tiroedd nad ydynt yn cael eu rheoli, bydd y bwriad yn gwella mwynderau gweledol yr ardal.

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 3.35 Mae tai annedd wedi eu lleoli gyferbyn a'r A496 ac i'r gorllewin o'r safle.
- 3.36 Byddai gweithgaredd ar y safle yn cynyddu gan gynnwys symudiadau cerbydau i ac o'r A496. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau gan drigolion y tai agosaf ar sail mwynder.
- 3.37 O ystyried natur y safle a'r cyffiniau, ystyrir na fyddai unrhyw effaith andwyol ar natur y datblygiad ar fwynderau preswyl yr eiddo preswyl presennol.
- 3.38 Bydd mwy o weithgarwch ar y safle yn ystod y gwaith adeiladu oherwydd gwaith dymchwel sy'n gysylltiedig â natur y datblygiad. Bydd angen cyflwyno Cynllun Amgylcheddol Adeiladu (a adwaenir fel CEMP) i gynnwys cynllun manwl ar fesurau i leihau sŵn, dirgryniad, a rheoli llwch.

Mynediad a Phriffyrdd

- 3.39 O ran mynedfa gerbydol, gwasanaethir y cynllun gan y fynedfa bresennol i'r A496, gyda safon gwelededd da ar hyd y ffordd. Bydd y fynedfa gynnig hefyd yn darparu mynedfeydd addas i gerddwyr o'r safle i'r rhwydwaith troedffyrdd presennol o amgylch y safle. Ni dderbyniwyd ymateb gan yr Awdurdod Priffyrdd ond ni chyflwynwyd gwrthwynebiad i'r cais blaenorol a dynnwyd yn ôl am fwy o unedau preswyl.

Draeniad Budr

- 3.40 Bydd y cynnig yn cysylltu â'r brif garthffos ac mae Dŵr Cymru/Welsh Water yn eu hymateb i'r ymgynghoriad wedi nodi bod yn rhaid cyflwyno cynllun draenio dŵr budr ar gyfer y safle a'i gymeradwyo cyn i neb fyw yn yr anheddau. Gellir amodi'r cyflwyniad hwn o gynllun draenio budr.

Ecoleg a Bioamrywiaeth

- 3.41 Cyflwynwyd Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol i ddechrau. Yn dilyn ymatebion gan CNC ac Ecolegydd yr Awdurdod, mae Arolwg Ystlumod a Rhywogaethau a Warchodir a Datganiad Seilwaith Gwyrdd wedi'u cyflwyno. Ail-ymgynghorwyd gyda CNC ac Ecolegydd yr Awdurdod.

- 3.42 Manylir ar Gamau Lliniaru ac Argymhellion ar gyfer y safle yn yr arolwg a gyflwynwyd yn ddiweddar a'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd sy'n cynnwys mesurau lliniaru ar gyfer ystlumod, adar yn nythu, mamaliaid daearol ac ymlusgiaid.
- 3.43 Mae'r adroddiadau hefyd yn manylu ar fesurau lliniaru ar gyfer ystlumod, gan gynnwys creu clwydfan newydd. Mae'r adroddiadau arolwg hefyd yn manylu ar welliant ar gyfer colli cynefin adar nythu ar ffurf 4 blwch nythu adar coeden/prenfaen i'w gosod ar goed o fewn ffin y safle.
- 3.44 Mae manylion hefyd wedi'u cyflwyno ar gyfer dileu Rhododendron, Buddleia a Helitrope Gaeaf a fyddai'n gwella bioamrywiaeth yn sylweddol ac yn atal lledaeniad planhigion a nodwyd i gynefinoedd cyfagos.
- 3.45 Bydd angen cynnal asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd oherwydd agosrwydd y Safle(oedd) Gwarchodedig o amgylch. Wrth ystyried sylwadau CNC ac Ecolegydd yr Awdurdod disgwylir i'r Asesiad Rheoliadau Cynefin (ARhC) ddod i'r casgliad y bydd angen amodau ar gyfer cyflwyno cynllun cadwraeth a goleuo i warchod ystlumod a'r dynodiadau. Bydd casgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefin (ARhC) yn cael eu hadrodd i'r pwyllgor, fodd bynnag disgwylir na fydd y casgliadau yn negyddol

Yr Iaith Gymraeg

- 3.46 Mae polisi CDLIE 18 yn cydnabod bod yn rhaid i'r Awdurdod, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, ystyried anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg. Wrth wneud hynny rhaid ystyried materion fel:
- Cefnogi datblygiad sy'n cynnal neu'n gwella cyfanrwydd y Gymraeg
 - Gwrthod datblygiad a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned
 - Lliniaru yn erbyn unrhyw effaith andwyol
 - Annog pob arwydd gan gyrrff cyhoeddus a buddiannau masnachol i fod yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig a hyrwyddo hynodrwydd unrhyw amwynder diwylliannol
 - Annog defnydd o'r Gymraeg ar gyfer enwau lleoedd, tai, ac enwau strydoedd
- 3.47 Mae'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol allweddol ac felly rhaid ystyried goblygiadau'r cynnig i'r iaith a'r gymuned Gymraeg leol wrth asesu'r cais hwn.
- 3.48 Mae Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r cais

- 3.49 Mae'r datganiad yn nodi manteision cyffredinol teuluoedd lleol yn meddiannu'r unedau fforddiadwy arfaethedig.

Gwarchodfa awyr dywyll

- 3.50 Mae'r safle wedi'i leoli o fewn y Warchodfa Awyr Dywyll (er nad yw o fewn parth craidd). Nid oes cynllun dylunio goleuo wedi'i gyflwyno. Mae ymateb CNC i'r ymgynghoriad yn nodi bod angen cyflwyno cynllun goleuo allanol er mwyn diogelu ystlumod. Mae cyflwyniad o gynllun dylunio goleuo wedi'i gyflyru.

4. Diwedd glo

- 4.1 Mae'r safle o fewn ffin datblygu tai Bontddu a byddai'n cyfrannu at nifer yr unedau tai fforddiadwy ac yn cyfrannu at darged yr Awdurdod o ddarparu 375 o dai fforddiadwy o fewn oes Cynllun Datblygu Lleol Eryri.
- 4.2 Mae'r safle mewn cyflwr bregus ac mae cyflwr yr adeilad a ddifrodwyd gan dân yn parhau i ddirywio ac yn amharu ar fwynderau gweledol pentref Bontddu a'r ardal ehangach.
- 4.3 Mae'r cyflwyniad diwygiedig yn ddatblygiad mwy priodol gyda darparu tai fforddiadwy newydd.
- 4.4 Mae swyddogion yn cydnabod ymhellach, oherwydd nodweddion y safle a chyflwr presennol yr adeilad sydd wedi'i ddifrodi gan dân, fod yna gyfyngiadau i ddatblygu'r safle.
- 4.5 Ar ôl pwyso a mesur felly, mae'r cais yn cael ei argymhell i'w gymeradwyo yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwmo i Gytundeb Adran 106 gyda'r Awdurdod ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn llwyddiannus. Yn wyneb nodweddion y safle a'r angen i ail-ddatblygu, efallai y bydd aelodau am archwilio'r safle cyn dod i benderfyniad.

ARGYMHELLIAD: RHOI caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn a bod yr ymgeisydd yn ymrwmo i Gytundeb 106.

1. Rhaid dechrau ar y datblygiad a ganiateir drwy hyn cyn pen PUM mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.
2. Rhaid cyflawni'r datblygiad a ganiateir drwy hyn yn unol â'r cynlluniau cymeradwy a ganlyn:
 - Cynllun Lleoliad Safle
 - Cyfeirnod N.1/23 – Rhif 1 - Cynllun Bloc Arfaethedig
 - Cyfeirnod N.1/23 – Parcio 01 – Mannau Parcio Ceir
 - Cyfeirnod N1/23 – Rhif 03 – Tai Fforddiadwy – Gweddlluniau Blaen a Chefn – Tai Fforddiadwy
 - Cyfeirnod N1/23 – N0 02 – Cynlluniau Llawr Arfaethedig – Anheddau Fforddiadwy
 - Cyfeirnod N1/23 – Anheddau Fforddiadwy Uchder a Lefelau crib

- Cyfeirnod Darlun N1/23 – Fflat Llawr Isaf
 - Cyfeirnod M.4/24 – Rhif 03 – Gwedduniau Arfaethedig - Tai Marchnad Agored ar Wahân
 - Cyfeirnod M.4/24 – Rhif 02 – Cynlluniau Llawr Arfaethedig - Tai Marchnad Agored ar wahân
 - Arolygon Ystlumod a Rhywogaethau a Warchodir gan Cambrian Ecology dyddiedig 9 Awst 2024
3. Ni cheir meddiannu'r tai annedd marchnad agored a ganiateir drwy hyn ac eithrio yn gwbl unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2022, Dosbarth Defnydd C3: Anedd, hy, fel unig neu brif breswylfa am fwy na 183 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr ac nid at unrhyw ddiben arall o fewn Dosbarth Defnydd C.
4. Ni chaniateir dechrau unrhyw ddatblygiad hyd nes y bydd Cynllun Cadwraeth wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y Cynllun Cadwraeth yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i:
- a) Adeiladu ar yr egwyddorion a amlinellwyd yn yr adroddiad ecolegol Arolygon Ystlumod a Rhywogaethau a Warchodir ar gyfer Adeiladau Dymchwel a Thrwsio Arfaethedig ar gyfer Neuadd Bontddu, Bontddu gan Cambrian Ecology Ltd. dyddiedig 09.08.24;
 - b) Cyflwyno rhagor o fanylion (gan gynnwys cynlluniau) am yr holl fesurau gwella iawndal i glwydfannau ystlumod gan gynnwys pwyntiau mynediad a nodwyd i glwydfannau;
 - c) Manylion amseriad, cyfnodau a hyd gweithgareddau adeiladu a mesurau cadwraeth;
 - d) Amserlen ar gyfer gweithredu a dangos bod y gwaith yn cyd-fynd â chyfnodau arfaethedig y datblygiad;
 - e) Camau i'w cymryd os darganfyddir rhywogaethau o ystlumod sydd heb eu hadnabod yn flaenorol;
 - f) Cynllun i archwilio gweithrediad mesurau ecolegol; (Gweler isod)
 - g) Personau sy'n gyfrifol am wneud y gwaith;
 - h) Cynllun Rheoli Hirdymor. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i:
 - Nodau ac amcanion diffiniedig (gan gynnwys targedau y gellir eu defnyddio fel dangosyddion perfformiad allweddol at ddibenion monitro); ar gyfer pob rhywogaeth o ystlum (Darparu adnoddau ariannol;
 - Presgripsiynau rheoli a chynnal;
 - Cyswllt safle, wardeinio, adrodd am ddigwyddiadau a threfniadau ymateb;
 - Newidiadau cyfredol ac unrhyw newidiadau arfaethedig i ddeiliadaeth rydd-ddaliadol yr ardal iawndal (deiliadaeth yr ardal ecoleg i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol)

- Mekanwaith adolygu cyfnodol ar gyfer y Cynllun Rheoli Ecoleg;
 - Monitro methodolegau a thargedau diffiniedig ar gyfer pob nodwedd ecolegol a gofynion adrodd;
 - Manylion personau neu gyrff sy'n gyfrifol am reoli a gwyliadwriaeth ynghyd â'r sgiliau a'r cymwyseddau gofynnol;
 - Gofynion adrodd sy'n gysylltiedig â gwyliadwriaeth rhywogaethau a rheoli cynefinoedd;
5. Ni chaniateir gosod unrhyw oleuadau allanol heb gyflwyno cynllun goleuo ffurfiol ymlaen llaw trwy gais ffurfiol i'r awdurdod am gymeradwyaeth. Bydd y cynllun goleuo hwn yn ystyried goleuadau presennol ac arfaethedig ynghyd ag unrhyw ollyngiad sy'n deillio o leoliadau mewnol. Bydd y gofyniad cydran hwn yn cynnwys:
- Manylion y goleuadau i'w defnyddio yn ystod ac ar ôl adeiladu
 - Cynlluniau yn dangos y lleoliad a'r math o oleuadau
 - Cynlluniau sy'n dangos manau ymddangosiad ystlumod a ragwelir neu a gedwir; ynghyd â nodweddion a gadwyd neu a fwriedir i'w defnyddio'n ymarferol gan ystlumod at ddibenion chwilota/gwasgaru
 - Archwiliad cydymffurfiaeth ecolegol goleuadau allanol dangosyddion perfformiad allweddol.
 - Monitro golau ôl-adeiladu
 - Bydd darpariaethau'r cynllun yn cyd-fynd â darpariaethau [Nodyn Cyfarwyddyd 08/23 y Sefydliad Goleuadau Proffesiynol a'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod: Ystlumod a Goleuadau Artiffisial yn y Nos](#).
6. Ni chaniateir dechrau unrhyw ddatblygiad ar y safle hyd nes y bydd Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (CE MP) wedi ei gyflwyno a'i gymeradwyo trwy gais ffurfiol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol Dylai hyn gynnwys cynllun manwl ar fesurau i leihau sŵn a dirgryniad, a rheoli llwch.
7. Cyn dechrau ar y datblygiad, dylid cyflwyno Cynllun Rheoli Sŵn i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dylai'r cynllun drafod maint effaith sŵn posib y datblygiad, a mesurau lliniaru ad - dalu. Fel rhan o'r cynllun, dylid cynnal asesiad sŵn adeiladu yn unol a BS 5228 er mwyn cael dealltwriaeth wybodus o'r lefelau. sŵn a dirgryniadau yn deillio o'r datblygiad arfaethedig.
8. Cyfyngir yr oriau gwaith craidd ar gyfer gwaith adeiladu cyffredinol i rhwng 0800 a 1800 o ddydd Llun i ddydd Gwener, 0800 a 1300 ar ddydd Sadwrn, a dim gweithio ar ddydd Sul na Gwyliau Banc, oni bai y cymeradwyir yn wahanol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol.
9. Bydd y Mesurau Lliniaru a'r Argymhellion ar gyfer y safle y manylir arnynt yn Adran 9, tudalennau 22-34 o'r Arolygon Ystlumod a Rhywogaethau a Warchodir gan Cambrian Ecology dyddiedig 9 Awst 2024 yn cael eu gweithredu'n llawn.

10. Y mesurau gwella bioamrywiaeth ar ffurf prencrit /carregrit a dileu Rhywogaethau Estron ymledol y manylir arnynt yn Adran 9.2.2 o Arolygon Ystlumod a Rhywogaethau a Warchodir gan Cambrian Ecology dyddiedig 9 Awst 2024 yn cael ei weithredu o fewn 3 mis yn dilyn cwblhau sylweddol y datblygiad a ganiateir drwy hyn a'i gadw wedi hynny.
11. Gorchuddir to'r tai gyda llechi llwydlas o ardal Blaenau Ffestiniog, neu lechi gyda nodweddion lliw, gwead a hindreulio cyfatebol a rhaid darparu a chymeradwyo'r manylion yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
12. Cyn i unrhyw waith cerrig ddechrau ar y safle, mae'n rhaid adeiladu panel prawf o waith carreg yn cynnwys pwyntio dim llai na 2.00 m². Ni chaniateir gwneud unrhyw waith adeiladu mewn carreg ar y safle oni bai a hyd nes y bydd y panel prawf wedi'i archwilio a'i gymeradwyo trwy gais ffurfiol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid adeiladu gwaith carreg yr estyniad yn unol â'r sampl a gymeradwywyd.
13. Ni chaniateir dechrau unrhyw waith datblygu hyd nes y bydd cynllun draenio dŵr budr ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo trwy gais ffurfiol i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cynllun yn darparu ar gyfer gwaredu llif dŵr budr a'i weithredu wedi hynny yn unol â'r manylion a gymeradwywyd cyn i neb symud i mewn i'r datblygiad.
14. Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad (gan gynnwys clirio safle neu waith tir) hyd nes y bydd manyleb ar gyfer rhaglen o waith archeolegol wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Rhaid cyflawni'r datblygiad a chwblhau'r holl waith archeolegol yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd.
15. Cyn y datblygiad, rhaid cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol a bydd yn parhau fel y cyfryw wedi hynny, yn cyflwyno cynllun tirlunio cwbl benodol, yn darparu manylion am eitemau tirlunio caled a meddal.
16. Er gwaethaf darpariaeth Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2013 (neu unrhyw Orchymyn sy'n dirymu neu'n ailddeddfu neu'n diwygio'r Gorchymyn hwnnw gydag addasiadau neu hebddynt) ni chaiff dim weithredu sy'n caniatáu (o fewn yr ardal sy'n destun y caniatâd hwn, Rhannau 2 o'r Gorchymyn hwn a chrynhai unrhyw ddatblygiad y cyfeirir ato yn y Rhannau isod):

RHAN 1: DATBLYGIAD O FEWN CWRTIL ANNEDD

Dosbarth A: Ehangu, gwella neu newid arall i dŷ annedd.

Dosbarth B: Ehangu tŷ annedd sy'n cynnwys ychwanegiad neu addasiad i'w do.

Dosbarth C: Unrhyw newid arall i do tŷ annedd.

Dosbarth D: Codi neu adeiladu porth y tu allan i unrhyw ddrws allanol tŷ annedd.

